Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# CORIDOR YR M4 O AMGYLCH CASNEWYDD

Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr

Taflen Grynhoi – Mawrth 2017

# M4 CORRIDOR AROUND NEWPORT

Objectors' Suggested Alternatives

Summary Leaflet – March 2017



## DEWISIADAU AMGEN A AWGRYMWYD GAN WRTHWYNEBWYR

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Orchmynion drafft ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd (y Cynllun) ym mis Mawrth 2016. Mae gwrthwynebiadau wedi cael eu derbyn ac fe'u clywir mewn Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus a ddechreuodd ar 28 Chwefror 2017 yn Sefydliad Lysaght yng Nghasnewydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn dewisiadau amgen i'r Cynllun. Er nad yw Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo nac yn cefnogi'r dewisiadau amgen hyn a awgrymwyd, mae'n rhaid iddi eu hystyried fel bod yr Arolygwyr sy'n cynnal yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus yn gallu adrodd ar eu rhagoriaeth unigol i Weinidogion Cymru. Ni all yr Arolygwyr argymell bod dewis amgen a awgrymwyd yn cael ei fabwysiadu, ond gallent gynghori Gweinidogion Cymru y dylid ymchwilio ymhellach i un neu fwy ohonynt. Yn yr achos hwnnw, a phe byddai ymchwiliadau o'r fath yn cael eu cynnal sy'n dod i'r casgliad y dylai dewis amgen gael ei fabwysiadu, byddai angen iddo fod yn destun gorchmynion statudol newydd a fyddai'n agored i wrthwynebiadau ffurfiol.

Gallai un neu fwy o'r dewisiadau amgen a awgrymwyd, pe byddent yn cael eu mabwysiadu, effeithio ar eich eiddo a/neu fuddiant. Mae'r Daflen Grynhoi hon ar y Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr yn dangos llwybr bras y dewisiadau amgen. Rhoddir gwybodaeth ac arfarniad manylach ynglŷn â phob dewis amgen a awgrymwyd mewn Adroddiad ar wahân ar y Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr.

Gellir cael copïau o'r adroddiad llawn o'r lleoliadau a restrir ar gefn y daflen hon, trwy gysylltu â'r Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad a roddir, trwy ffonio **0845 600 2664,** neu drwy anfon neges e-bost at **info@m4-can.com**.

Gellir cael copïau electronig o'r adroddiad llawn trwy fynd i wefan yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus **http://m4-newport.persona-pi.com.**

**Sylwer nad yw Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo'r Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr**

## OBJECTORS' SUGGESTED ALTERNATIVES

The Welsh Government published draft Orders for the M4 Corridor around Newport (the Scheme) in March 2016. Objections have been received and will be heard at a Public Local Inquiry which commenced on 28 February 2017 at Newport Lysaght Institute.

Suggested alternatives to the Scheme have been received by the Welsh Government. While the Welsh Government is not promoting or supporting these suggested alternatives, it is obliged to consider them so that the Inspectors conducting the Public Local Inquiry can report on their relative merits in their report to the Welsh Ministers. The Inspectors cannot recommend that a suggested alternative be adopted, but they could advise the Welsh Ministers that one or more of them warrants further investigation. In such an event, and if such investigations were undertaken that conclude an alternative should be adopted, it would then need to be the subject of new statutory orders which themselves would be open to formal objection.

One or more of the suggested alternatives might, if adopted, affect your property and/or interest. This Objectors' Suggested Alternatives Summary Leaflet shows the approximate routing of the suggested alternatives. More detailed information and appraisal of each suggested alternative is provided within a separate Objectors' Suggested Alternatives Report.

Copies of the full report can be obtained from the locations listed on the reverse of this leaflet, by contacting Orders Branch at the address given, by telephone **0845 600 2664**, or by email **info@m4-can.com**.

Electronic copies of the full report can be obtained by visiting the Public Local Inquiry website **http://m4-newport.persona-pi.com**.

**Please note that the Welsh Government is not promoting the Objectors' Suggested Alternatives**

## ARFARNU'R DEWISIADAU AMGEN A AWGRYMWYD GAN WRTHWYNEBWYR

Yn yr adroddiad llawn, mae'r Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr wedi cael eu harfarnu yn erbyn meini prawf Llywodraeth Cymru fel y'u hamlinellir yn WelTAG (Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru).

Mae'r dull hwn a arweinir gan amcanion yn ystyried gallu pob dewis i fodloni Amcanion Penodol y Cynllun, ac yn ei arfarnu yn erbyn tri maes effaith Llywodraeth Cymru (yr Economi, yr Amgylchedd a Chymdeithas), derbynioldeb gan y cyhoedd a rhanddeiliaid, ymarferoldeb technegol a gweithredol, cyflawnadwyedd a fforddiadwyedd ariannol, a risgiau.

## APPRAISAL OF THE OBJECTORS' SUGGESTED ALTERNATIVES

Within the full report, the Objectors' Suggested Alternatives have been appraised against the Welsh Government's criteria as set out in WelTAG (Welsh Transport Appraisal Guidance).

This objective led approach considers the ability of each option to meet the Scheme Specific Objectives, and appraises it against the Welsh Government's three impact areas (Economy, Environment and Social), public and stakeholder acceptability, technical and operational feasibility, financial affordability and deliverability, and risks.

## GWNEUD SYLWADAU AR Y DEWISIADAU AMGEN A AWGRYMWYD GAN WRTHWYNEBWYR

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu neu gefnogi unrhyw un o'r Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr wneud hynny cyn gynted â phosibl trwy ysgrifennu at y Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad isod, neu drwy anfon neges e-bost at **info@m4-can.com**.

**Y Gangen Orchmynion**
Adran yr Economi a'r Seilwaith
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn cael eu trosglwyddo i'r Arolygwyr er mwyn eu hystyried. Mae'n bosibl y bydd rhaid i'r Arolygwyr ddatgelu'r sylwadau ac enw'r awduron yn yr Ymchwiliad, oni bai bod rhesymau arbennig dros beidio â gwneud hynny. Fel arfer, cedwir copi o'r holl ohebiaeth yn llyfrgell yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus, sydd ar agor i'w harchwilio gan y cyhoedd.

## COMMENTING ON THE OBJECTORS' SUGGESTED ALTERNATIVES

Anyone wishing to object to or support any of the Objectors' Suggested Alternatives should do so as soon as possible by writing to Orders Branch at the address below, or by email **info@m4-can.co**m.

**Orders Branch**
Department for Economy and Infrastructure
Welsh Government Offices
Cathays Park
Cardiff CF10 3NQ

All comments received will be passed to the Inspectors for consideration. The Inspectors may be required to disclose the comments and the identity of the authors at the Inquiry, unless there are special reasons to the contrary. A copy of all correspondence is normally kept in the Public Local Inquiry library and is open to public inspection.


---

**Sylwer nad yw Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo'r Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr**

**Please note that the Welsh Government is not promoting the Objectors' Suggested Alternatives**

# DEWISIADAU AMGEN A AWGRYMWYD GAN WRTHWYNEBWYR AR GYFER CORIDOR YR M4 O AMGYLCH CASNEWYDD

# M4 CORRIDOR AROUND NEWPORT OBJECTORS' SUGGESTED ALTERNATIVES




Sylwer nad yw Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo'r Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr

Please note that the Welsh Government is not promoting the Objectors' Suggested Alternatives

## GWYBODAETH YCHWANEGOL

Gellir cael copïau o'r Adroddiad llawn ar y Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr o'r lleoliadau a restrir isod, trwy gysylltu â'r Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad a roddir, trwy ffonio **0845 600 2664**, neu drwy anfon neges e-bost at **info@m4-can.com**.

Gellir cael copïau electronig o'r adroddiad llawn trwy fynd i wefan yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus **http://m4-newport.persona-pi.com**.

**Y Gangen Orchmynion**
Adran yr Economi a'r Seilwaith
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

**Cyngor Sir Fynwy**
Tŷ Arloesedd
Parc Busnes Cymru 1
Magwyr NP26 3DG

**Cyngor Sir Fynwy**
Neuadd y Sir
Rhadyr
Brynbuga NP15 1GA

**Cyngor Dinas Casnewydd**
Y Ganolfan Ddinesig
Heol Godfrey
Casnewydd NP20 4UR

**Sefydliad Lysaght Casnewydd** (yn ystod yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus)
Orb Drive
Casnewydd NP19 0HE

**Llyfrgell Ganolog Casnewydd**
Sgwâr John Frost
Casnewydd NP20 1PA

## FURTHER INFORMATION

Copies of the full Objectors' Suggested Alternatives Report can be obtained from the locations listed below, by contacting Orders Branch at the address given, by telephone **0845 600 2664**, or by email **info@m4-can.com**.

Electronic copies of the full report can be obtained by visiting the Public Local Inquiry website **http://m4-newport.persona-pi.com**.

**Orders Branch**
Department for Economy and Infrastructure
Welsh Government Offices
Cathays Park
Cardiff CF10 3NQ

**Monmouthshire County Council**
Innovation House
Wales 1 Business Park
Magor NP26 3DG

**Monmouthshire County Council**
County Hall
Rhadyr
Usk NP15 1GA

**Newport City Council**
Civic Centre
Godfrey Road
Newport NP20 4UR

**Newport Lysaght Institute** (during Public Local Inquiry)
Orb Drive
Newport NP19 0HE

**Newport Central Library**
John Frost Square
Newport NP20 1PA

---

**Sylwer nad yw Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo'r Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr**

**Please note that the Welsh Government is not promoting the Objectors' Suggested Alternatives**